BACK FROM THE BRINK



# Pryfeteg i Ddechreuwyr

## Canllaw i chi ddod i nabod ffrindiau'r ffermwr o gwmpas y caeau

## Ydych chi eisiau gwybod mwy?

Gallwch gael hyd i lwythi o adnoddau am fywyd gwyllt tir amaeth, i bob oed a gallu, ar plantlife.org.uk gan gynnwys mwy am weirgloddiau gwych ar Hyb y Gweirgloddiau, meadows.plantlife.org.uk. Gallwch ddarganfod mwy am infertebratau drwy ymweld â buglife.org.uk.

Ceisiwch ddatblygu'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu am flodau caeau ŷd drwy lawrlwytho'r ap am Flodau Âr Prin neu gofnodi'r bywyd gwyllt a welwch ar iRecord.



Design/Illustrations by evansgraphic.co.uk


BACK FROM THE BRINK

gweirgloddiau gwych cymru | magnificent meadows wales

buglife

Plantlife

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund


# Pwy yw ffrindiau'r ffermwr?

**Infertebratau buddiol yw ffrindiau'r ffermwr sy'n helpu i beillio planhigion, yn gwella iechyd y pridd at dyfu cnydau ac yn gallu helpu wrth reoli rhywogaethau eraill a all gael effaith negyddol ar gnydau. Gall eu gwylio ar gaeau tir amaeth helpu i ddeall pa mor bwysig ac amrywiol ydyn nhw.**

## Beth yw infertebratau?

Anifeiliaid di-asgwrn-cefn yw infertebratau. Dyma'r grŵp mwyaf ym myd yr anifeiliaid. Maent i'w cael ym mhob lliw a llun ac yn byw ym mhobman dan haul fwy neu lai.

**Dyma rai o'r gwahanol siapiau corff i'ch rhoi chi ar ben ffordd ar eich taith bryfeteg**





**Infertebratau yw 97% o holl anifeiliaid y byd!**

## Cyfrifwch nifer y coesau a'r adenydd

**Pryfeteg**
Yr astudiaeth o bryfed neu drychfilod eraill

Ffrindiau i'r ffermwr yw infertebratau. Mae rhai'n ddigoes ond at ei gilydd mae ganddynt chwech fel cacwn a chwilod, wyth goes fel pryfed cop neu lawer iawn mwy o goesau fel gwrachod y coed a miltroediaid.

**Edrychwch o gwmpas y cynefin lle'r ydych chi a defnyddio'r siart isod i ddarganfod pa fath o ffrind rydych wedi cael hyd iddo.**




Mae llawer o infertebratau eraill heb goesau, fel malwod a larfâu pryfed. Allwch chi feddwl am unrhyw rai eraill?

## Helfa Pryfed Hofran

Un o arwyr di-glod cefn gwlad yw pryfed hofran - infertebratau sy'n arbenigo ar amldasgio! Mae pryfed hofran yn eu llawn dwf yn wirioneddol gampus fel peillwyr ac mae rhai larfâu'n sglaffwyr pryfed gleision dihafal. Ceir dros 280 o wahanol rywogaethau o bryfed hofran yn y DU, llawer ohonynt yn edrych yn debyg iawn i'w gilydd.

Chwiliwch am batshyn heulog lle mae ambell i blanhigyn blodeuol a chymryd eich amser i'w canfod.


**Wyddech chi** fod larfâu pryfed hofran ysglyfaethus yn gallu bwyta hyd at 1200 o bryfed gleision mewn 6 wythnos?!

Gall pryfed hofran edrych yn debyg iawn i bryfed hededog eraill. Allwch chi feddwl am unrhyw rai eraill sy'n debyg?

**Rhowch gynnig ar gyfrif faint rydych chi'n eu gweld**

©Dan TP


Pryf hofran teigr


Pryf hofran hir

©Amada44 - CC BY-SA 4.0

©S.Falk


Pryf hofran marmalêd


Pryf hofran brith mwyaf

©S.Falk

## Sawl un?

Dewiswch ddarn o lwybr lle byddwch yn edrych i weld pa infertebratau y gallwch gael hyd iddynt yno. Allwch chi weld unrhyw ffrindiau i'r ffermwr fel y rheini isod? Beth am roi cynnig ar gyfrif faint y gallwch eu gweld? Defnyddiwch y blwch fel siart 'gyfrif' ar gyfer nifer y gwahanol fathau o infertebrat.




### Welsoch chi rywbeth gwahanol?

Tynnwch lun ohono fe fan hyn a nodi lle cawsoch chi hyd iddo a beth roedd yn ei fwyta. Os nad ydych yn gwybod beth yw ei enw, rhowch enw newydd iddo.

**Math o infertebrat** ______

**Nifer rhannau'r corff** ______

**Nifer y coesau** ______

**Enw** ______

**Hoff fwyd** ______

**Yn byw yn** ______

# Pwy yw'r ffrindiau buddiol?

Mae gwahanol rywogaethau o infertebratau'n gwneud jobsys penodol. Mae grwpiau o ffrindiau'r ffermwr yn cael eu galw yn ysglyfaethwyr, parasitoidau, peillwyr a chompostwyr. **Wrth grwydro'r llwybrau o gwmpas tir amaeth a chaeau, defnyddiwch y delweddau isod i geisio darganfod rhywogaeth yr un fath neu sy'n edrych yn debyg.**

## Ysglyfaethwyr

Mae ysglyfaethwyr yn bwyta oedolion a larfâu infertebratau eraill sy'n byw ar fferm âr ac a all ddifrodi cnydau.


©S. Rae - CC BY 2.0
Larfâu'r fuwch goch gota 7-smotyn


©Mathias Krumbholz - CC BY-SA 3.0
Adain siderog cyffredin


©Christoph Benisch - www.kerbtier.de
Chwilen cefn blewog mellet


©Chris Spilling
Pryf lleidr coesgoch

## Parasitoidau

Prae parasitoidau yw larfâu 'plâu' ac yn y bôn maent yn bwyta eu ffordd allan o'r pryfyn arall gan ladd y pla.


©Chris Moody CC BY-NC 2.0
Chwilen grwydr


©Scott SM - CC BY-NC 2.0
Gwenynen feirch barasitaidd


©Andrew Ramsay
Gwenynen feirch ichnewmon


©Lund University - CC BY-NC 2.0
Rhywogaeth platygaster

## Peillwyr

Mae peillwyr yn dod ym mhob lliw a llun ac yn helpu planhigion i atgenhedlu gan hybu cynhyrchu hadau.


©S. Rae - CC BY 2.0
Gwyfyn bwrned 6-smotyn


©Peter Hayes
Chwilen goesdew


©Dan TP
Pryf hofran teigr


©S.Falk
Cacynen gynffongoch

## Compostwyr

Mae compostwyr yn byw neu'n gaeafu yn y pridd, gan fwyta detritws a malurio sylwedd organig


©André Karwath - CC BY-SA 2.5
Miltroed cefngwastad


©Matt Shardlow
Pryf genwair


©John Mason
Gwrach y coed


©AJC1 - CC BY-SA 2.0
Cwtsboncyn

## Beth yn union maent yn ei wneud?

Bydd yr enghreifftiau canlynol yn eich helpu i ddeall eu rôl ar eich siwrnai Bryfeteg.

**Tra byddwch ar grwydr, beth am stopio wrth ryw ychydig o flodau neu blanhigion, cymryd amser i graffu a gweld os gallwch gofnodi unrhyw weithgarwch byw!**


©bramblejungle - CC BY-NC 2.0

**Bwytawyr pryfed gleision** - mae chwilen ysglyfaethus y llawr yn hoffi sglaffio ar bryfed gleision grawn.


©Cath Shellswell

**Paill-gludwr** – mae cacwn yn beillwyr pwysig sy'n cludo paill rhwng planhigion o'r un rhywogaeth.


©Chris Moody CC BY-NC 2.0

**Corff-gipiwr** – mae'r chwilen grwydr las yn parasiteiddio pryfed hadau ffa.


©Matt Shardlow

**Compostwyr cŵl** – mae pryfed genwair yn bwyta sylwedd sy'n pydru, gan wella'r pridd ar gyfer cnydau iach.

**Allwch chi weld y gwahaniaeth rhwng y rhywogaethau isod ac adnabod pa grŵp y maent yn perthyn iddo?**

**Tynnwch linell i baru'r grŵp â'r ddelwedd:**

Tarianbryf | Chwilen | Pryf | Cacynen


©Nigel Jones


©S.Falk


©S.Falk


©John Walters